TGAU

3000N20-1

# CYMRAEG IAITH

## Uned 2

## Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

DYDD MERCHER, 9 MAI 2018 – BORE

2 awr a'ch amser estynedig

Cyfenw ______________________________

Enwau Eraill ______________________________

Rhif y Ganolfan ______________________________

Rhif yr Ymgeisydd 0 ______________________________

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

VP*(S18-3000N20-1) MLP

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| | Marc Uchaf | Marc yr Arholwr |
| Adran A (Darllen) | 30 | |
| Adran B (Ysgrifennu) | 40 | |
| Cyfanswm | 70 | |

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Deunydd Darllen**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du, neu eich dull arferol.**

**Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar y dudalen flaen.**

**Atebwch BOB cwestiwn yn Adran A a B1.**

**Dewiswch UN o'r testunau yn Adran B2 ar gyfer y dasg ysgrifennu.**

**Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd priodol yn y llyfryn hwn.**

**Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch ar gyfer eich atebion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r rhif cywir i'r cwestiwn.**

**Awgrymir eich bod yn treulio eich amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:**

| | |
|---|---|
| **Adran A** | **– tua 10 munud yn darllen** |
| | **– tua 50 munud yn ateb y cwestiynau** |
| **Adran B1** | **– tua 10 munud** |
| **Adran B2** | **– tua 10 munud yn cynllunio** |
| | **– tua 40 munud yn ysgrifennu** |

**Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Adran A (Darllen): 30 marc**

**Adran B (Ysgrifennu): 40 marc**

**Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

**ADRAN A (DARLLEN): 30 MARC**

**Mae 6 darn darllen ar thema 'Byd Ffasiwn' yn y llyfryn darllen sydd ar wahân.**
**Darllenwch BOB un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.**

## Darn Darllen 1
## Swyddi yn y Diwydiant Ffasiwn yn y Deyrnas Unedig

**A1.** **Faint o bobl sy'n gweithio yn y sector gwerthu dillad?**
**Rhowch ✓ yn y blwch priodol.**

**112,000** ☐

**34,000** ☐

**5,000** ☐

**414,000** ☐

**[1]**

**A2.** **Dewiswch y DDWY ffaith sy'n gywir drwy roi ✓ mewn DAU flwch o'ch dewis. [2]**

| | |
|---|---|
| **Mae mwy o bobl yn gweithio yn y sector gwerthu nwyddau lledr na'r sector cynhyrchu dillad.** | |
| **Y sector sy'n cyflogi'r nifer lleiaf o bobl yw'r sector cyfanwerthu dillad ac esgidiau.** | |
| **Mae mwy o bobl yn gwerthu dillad nag sydd yn cynhyrchu dillad.** | |
| **Mae mwy o bobl yn cynhyrchu esgidiau nag sydd yn cynhyrchu dillad.** | |

## DARN DARLLEN 2
## GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU

**A3. Beth yw ystyr ‘mewn bri’? [1]**

**Rhowch ✓ yn y blwch priodol.**

**Mae’n golygu:**

- **amhoblogaidd** ☐
- **tebyg** ☐
- **poblogaidd** ☐
- **penodol** ☐

## DARN DARLLEN 3
## FFAIR FFEIRIO FFASIWN

**A4.** Pa nodwedd / techneg arddull a ddefnyddir yn nheitl y poster 'Ffair Ffeirio Ffasiwn'? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

| | |
|---|---|
| Trosiad | ☐ |
| Cyflythreniad | ☐ |
| Ansoddair | ☐ |
| Cyffelybiaeth / Cymhariaeth | ☐ |

**A5.** **Yn eich geiriau eich hun, esboniwch beth yw ‘Ffair Ffeirio’ a beth sy’n digwydd yno. [2]**

## DARN DARLLEN 4
## EICH DILLAD

**A6.** **Beth yw bwriad yr awdur yn Narn Darllen 4?** **[1]**

**Rhowch ✓ yn y blwch priodol.**

| | |
|---|---|
| **Perswadio** | ☐ |
| **Cyflwyno gwybodaeth** | ☐ |
| **Mynegi barn** | ☐ |
| **Dadansoddi** | ☐ |

**A7. Meddyliwch am eich ateb i gwestiwn A6. Sut mae'r awdur yn llwyddo i gyflawni ei fwriad? Dylech gyfeirio at y darn darllen wrth ateb. [5]**

## DARN DARLLEN 5
## HUW FFASH

**A8. Pa air yn y blwch isod sy'n golygu gwneud i rywun edrych yn wahanol?**
**Tanlinellwch y GAIR cywir. [1]**

**Mae Huw yn amlwg iawn ar y teledu ers dros 18 mlynedd. Mae'n gyflwynydd ffasiwn ar raglenni 'Prynhawn Da' a 'Heno'. Ar 'Prynhawn Da', mae'n rhoi gweddnewidiad i wylwyr. Mae'n dewis dillad iddyn nhw, ac mae pobl eraill ar y tîm yn gwneud eu gwallt a'u colur. Mae'n mwynhau siopa i chwilio am syniadau newydd. Mae'n rhoi syniadau i ferched am sut i gael delwedd designer am brisiau'r stryd fawr.**

**A9.** **Nodwch a yw'r brawddegau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓ yn y golofn briodol. Mae un ateb wedi ei roi i chi yn barod. [2]**

| | CYWIR | ANGHYWIR |
|---|---|---|
| I goleg Celf Caerdydd aeth Huw i astudio. | | ✓ |
| Mae Milan a Fflorens yn ddinasoedd yn Ffrainc. | | |
| Mae Huw yn berchen ar siop sy'n gwerthu dillad priodas. | | |

## DARN DARLLEN 6
## STEIL

**A10. Nodwch DDAU reswm pam mae Osian yn hoffi prynu dillad o siopau elusen a siopau vintage. [2]**

**DARNAU DARLLEN 5 A 6**
**HUW FFASH A STEIL**

**A11. CYMHARWCH yr hyn rydych chi'n ei ddysgu am Huw Ffash ac Osian Huw Williams. Dylech ddefnyddio gwybodaeth o'r DDAU ddarn darllen.**

**[7]**

## A12. GOLYGU (5 MARC)

**(i)** **Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair cywir i lenwi'r bwlch drwy roi ✓ yn y blwch priodol.** **[1]**

**Cafodd Cadi le yn y ras derfynol gan mai hi oedd**

**________________________ yn y rownd gynderfynol.**

| | |
|---|---|
| **fwyaf araf** | ☐ |
| **gyflymaf** | ☐ |
| **rhedwr** | ☐ |
| **cystal** | ☐ |

**A12.**

**(ii)** **Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y diwedd sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol.** **[1]**

**Roedd Jac wedi edrych ymlaen yn fawr at weld y ffilm ond...**

| | |
|---|---|
| **ni chafodd ei siomi.** | ☐ |
| **roedd yn dda iawn.** | ☐ |
| **aeth i'r sinema'n fuan.** | ☐ |
| **cafodd ei siomi ynddi.** | ☐ |

**A12.**

**(iii) Gosodwch y brawddegau canlynol mewn trefn trwy roi'r rhifau 1, 2 a 3 yn y blychau priodol. [3]**

**(a) Hefyd, rhaid i'r corff gael gwared ar y nwy gwenwynig, carbon deuocsid.** ☐

**(b) Mae'r nwyon hyn yn cael eu cario o gwmpas y corff yn y gwaed.** ☐

**(c) Er mwyn aros yn fyw rhaid i nwy ocsigen gyrraedd pob rhan o'r corff.** ☐

## ADRAN B (YSGRIFENNU): (40 MARC)

### B1. PRAWF DDARLLEN (5 MARC)

(i) Darllenwch y darn canlynol. Mae dau wall ynddo. Chwiliwch am y DDAU wall a chywirwch nhw ar y tabl sy'n dilyn y paragraff. [2]

> Bydd angen i'r gacen fod yn y popty am pum munud ar hugain cyn gadael iddo oeri.
>
> Wedyn, gellir ei haddurno.

| GWALL | CYWIRIAD |
|---|---|
| | |
| | |

**B1.**

**(ii)** **Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]**

**yng Ngymru** ☐

**yng Nghymru** ☐

**(iii)** **Cywirwch y brawddegau canlynol. Dylech ysgrifennu'r brawddegau yn gywir ar y llinellau. [2]**

**Pwy yw'r bachgen rwyt ti'n siarad am?**

________________________________________

________________________________________

**Gwelodd y bachgen ei ffrind yfory.**

________________________________________

________________________________________

**B2.** **Yn y dasg hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau YSGRIFENNU.**

**Dewiswch UN o'r canlynol i ysgrifennu amdano.**

**NAILL AI,**

**(a)** **Yn narn darllen 4, mae'r awdur wedi ymweld â chanolfan ailgylchu dillad.**
**Rydych chi wedi bod ar ymweliad â man arbennig e.e. parc antur, amgueddfa, parc gwledig, taith ysgol. Ysgrifennwch gofnod diwrnod mewn dyddiadur yn disgrifio'r ymweliad.**

**B2.**

**NEU,**

**(b) Dewisiwch UN o'r lluniau isod fel sbardun i ysgrifennu stori.**







**Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir. [35]**

- **Dylech geisio ysgrifennu rhwng 350 - 500 o eiriau.**
- **Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.**
- **Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch ar dudalen 31 cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.**
- **Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol sydd yng nghefn y llyfryn os bydd angen.**

**CYNLLUN**

**TEITL:**

**DIWEDD Y PAPUR**

**Trowch y dudalen os bydd angen mwy o le arnoch i ysgrifennu.**

| Rhif y Cwestiwn | TUDALEN YCHWANEGOL, OS OES EI HANGEN. YSGRIFENNWCH RIFAU'R CWESTIYNAU AR YMYL CHWITH Y DUDALEN. |
| --- | --- |
| | |

| Rhif y Cwestiwn | TUDALEN YCHWANEGOL, OS OES EI HANGEN. YSGRIFENNWCH RIFAU'R CWESTIYNAU AR YMYL CHWITH Y DUDALEN. |
| --- | --- |
| | |

| Rhif y Cwestiwn | TUDALEN YCHWANEGOL, OS OES EI HANGEN. YSGRIFENNWCH RIFAU'R CWESTIYNAU AR YMYL CHWITH Y DUDALEN. |
| --- | --- |
| | |

| Rhif y Cwestiwn | TUDALEN YCHWANEGOL, OS OES EI HANGEN.<br>YSGRIFENNWCH RIFAU'R CWESTIYNAU AR YMYL CHWITH Y DUDALEN. |
|---|---|
| | |